COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O GYMUNED CYNFFIG YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU
AROLWG O GYMUNED CYNFFIG YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CYNIGION CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

3. YSTYRIAETH Y COMISIWN

4. TREFN

5. LLYWODRAETH LEOL EFFEITHIOL A CHYFLEUS

6. CYNIGION

7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
CAERDYDD
CF10 3BE
Ffôn: (029) 2039 5031
Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: lgbc@lgbc-wales.gov.uk
www.lgbc-wales.gov.uk

Y Gwir Anrh H Rhodri Morgan Ysw AS AC
Prif Ysgrifennydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

AROLWG O GYMUNED CYNFFIG YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal arolwg o Gymuned Cynffig yn unol ag Adran 55 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Y Ddeddf).

1.2 Rydym wedi ystyried adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag Adran 55 (3) o'r Ddeddf ac yn cyflwyno'r adroddiad canlynol ar argymhellion y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

2. CYNIGION CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

2.1 Ar hyn o bryd, mae Cymuned Cynffig wedi ei rhannu at ddibenion etholiadol cymunedol i wardiau cymunedol Corneli a'r Pîl. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig creu dwy gymuned newydd yn seiliedig ar y wardiau cymunedol presennol hyn. Byddai gan y cymunedau arfaethedig hyn gynghorau cymuned.

2.2 Cyflwynwyd cynigion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r Comisiwn ar 7 Gorffennaf 2000. Nid yw'r Comisiwn wedi derbyn unrhyw gynrychioliadau ynglyn â'r cynigion.

3. YSTYRIAETH Y COMISIWN

3.1 Ystyriwyd yn gyntaf a oedd y Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi cynnal eu harolwg yn unol â'r drefniadaeth a nodir yn y Ddeddf. Ystyriwyd wedyn a oedd y cynigion a argymhellir yn addas er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

4. TREFN

4.1 Rydym yn fodlon bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal yr arolwg yn unol â'r drefn a nodir yn Adran 60 o'r Ddeddf.

4.2 Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Cynffig ar 25 Medi 1996, cytunodd y cyngor:

"I'r clerc ddilyn y trefniadau angenrheidiol gyda'r awdurdodau priodol i Gyngor Cymuned Cynffig ddychwelyd i statws dau gyngor cymuned ar wahân, sef Cyngor Cymuned Y Pîl a Chyngor Cymuned Corneli."

4.3 Gwnaeth Gyngor Cymuned Cynffig gynrychioliadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gofyn am arolwg o'r gymuned. O ganlyniad i gynrychioliadau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymuned Cynffig, archwiliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynnal pôl piniwn cymunedol ac ymgynghori gyda phartïon oedd â diddordeb. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd da i'r pôl piniwn ac fe'i cynhaliwyd Ddydd Mercher 24ain a Dydd Iau 25ain Chwefror 1999. Canlyniad y pôl piniwn, gan ystyried pleidleisiau'r etholaeth yn ogystal â'r bleidlais fusnes, oedd:

Cwestiwn	**Ateb**	
	YDW	NAC YDW
YDYCH CHI'N YSTYRIED Y BYDDAI RHANNU CYNGOR CYMUNED CYNFFIG YN DDAU GYNGOR CYMUNED, UN I GYNRYCHIOLI ARDAL Y PÎL A'R LLALL I GYNRYCHIOLI ARDAL CORNELI, ER BUDD LLYWODRAETH LEOL EFFEITHIOL A CHYFLEUS?	**599**	**219**

4.4 Rhoddodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hysbysiad ym mis Tachwedd 1999 o'u bwriad i gynnal arolwg, gan wahodd sylwadau cychwynnol oddi wrth bartïon oedd â diddordeb. Dim ond un cynrychioliad a dderbyniwyd, sef un oddi wrth Gangen Cynffig o Blaid Cymru, the Party of Wales. Ystyriwyd y cynrychioliad hwn gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol wrth ffurfioli eu cynigion drafft, a gyhoeddwyd ar 27 Ionawr 2000. Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus o'r cynigion drafft a gwahoddwyd sylwadau erbyn 10 Mawrth 2000.

4.5 Ar ôl ystyried y cynrychioliadau a dderbyniwyd ffurfiodd y Cyngor Bwrdeistref Sirol eu cynigion terfynol. Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus o'r cynigion terfynol, a gwahoddwyd sylwadau erbyn 2 Mehefin 2000. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau pellach felly cyflwynwyd y cynigion i'r Comisiwn ar 7 Gorffennaf 2000.

4.6 Mae Adran 54 (1)(e) o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer newid i'r trefniadau etholiadol sy'n dod o ganlyniad i unrhyw newid i ardal llywodraeth leol. Cynrychiolir wardiau cymuned presennol Corneli gyda 4,702 o etholwyr a'r Pîl gyda 5,413 o etholwyr gan 9 cynghorydd cymuned yr un. Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn argymell bod y ddau gyngor cymuned newydd yn cael eu cynrychioli gan 9 cynghorydd cymuned yr un. O dan y trefniadau etholaethol sirol presennol, cynrychiolir ward Corneli gan 2 gynghorydd a ward Y Pîl gan 3 chynghorydd yn eu rhanbarthau etholiadol. Felly ni fydd y newid arfaethedig ar gyfer y trefniadau etholiadol cymunedol yn gofyn am newid canlyniadol i'r trefniadau ar gyfer y rhanbarthau etholiadol sirol.

4.7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr awgrymodd yr enwau Corneli a'r Pîl ar gyfer y ddwy gymuned newydd. Rydym wedi cadarnhau bod yr enwau hyn yn dderbyniol gyda Phwyllgor Ymgynghorol Enwau Lleoedd Cymru.

5. LLYWODRAETH LEOL EFFEITHIOL A CHYFLEUS

5.1 Rydym wedi nodi'r gefnogaeth eang dros wahanu'r ddwy ardal gymuned fel y gwelir yn ôl y pôl piniwn a'r cynrychioliadau a wnaed gan Gyngor Cymuned Cynffig a Changen Cynffig o Blaid Cymru the Party of Wales.

5.2 Rydym wedi nodi bod y ddwy ardal wedi cael eu cynrychioli ar wahân ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ers 1996 ac ar Gyngor Sir Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistrefol Ogwr cyn hynny.

5.3 Mae aelodau o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn wedi ymweld â'r ardal ac yn ystyried bod ffin y ward gymunedol bresennol sy'n dilyn llinell y rheilffordd yn un eglur ac yn marcio'r ffin rhwng dwy gymuned Corneli a'r Pîl yn effeithiol.

5.4 Mae Cyngor Cymuned Cynffig wedi nodi asedau a rhwymedigaethau'r cyngor cymuned ac wedi gwneud cynigion ar sut y dylid eu rhannu rhwng y cymunedau arfaethedig. Gwelir cynigion y Cyngor Cymuned yn Atodiad 1. Ystyriwn fod y cynigion a wneir gan Gyngor Cymuned Cynffig ar gyfer rhannu asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor yn deg a chyfiawn.

5.5 Rydym wedi nodi mai dyddiad dewisol Cyngor Cymuned Cynffig ar gyfer etholiad i'r Cynghorau newydd yw mis Mai 2002. Mae dyddiad gweithredu'r cynigion hyn, fodd bynnag, yn fater i'w ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

6. CYNIGION

6.1 Rydym wedi ystyried cynigion Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi penderfynu eu bod yn addas ar gyfer creu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal. Rydym wedi addasu'r cynigion i gynnwys cynigion Cyngor Cymuned Cynffig ar gyfer dosbarthu asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor. I'r perwyl hwnnw, rydym yn gwneud y cynigion fel y maent wedi eu haddasu, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwelir map yn dangos ardal yr arolwg yn Atodiad 2.

7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

7.1 Wedi cwblhau ein hystyriaeth o'r arolwg o Gymuned Cynffig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a chyflwyno ein cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol yn unol â'r Ddeddf.

7.2 Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach, os gwêl fod hynny'n briodol, yw eu derbyn neu roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg pellach.

7.3 Dylid anfon unrhyw gynrychioliadau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid eu cyflwyno cyn gynted â phosibl ac yn sicr cyn pen chwe wythnos fan bellaf o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid anfon cynrychioliadau at:

Is-Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

YR ATHRO E SUNDERLAND OBE LL MA PhD LLD FIBiol (Cadeirydd)

E F L FITZHUGH OBE DL (Dirprwy Gadeirydd)

MRS S G SMITH LLB (Aelod)

R L KNIGHT BA MSc MRTPI (Ysgrifennydd)

Mawrth 2001

Atodiad 1

Cynigion Cyngor Cymuned Cynffig dros Rannu Asedau a Rhwymedigaethau'r Cyngor

Bydd asedau a rhwymedigaethau Cyngor Cymuned Cynffig yn cael eu rhannu i Gynghorau Cymuned Corneli a'r Pîl fel y nodir isod:

1. Asedion

1.1 Cyfrif Banc

Yr holl arian yng Nghyfrif Banc y Cyngor i gael ei rannu'n gyfartal rhwng y ddau Gyngor Cymuned newydd.

1.2 Offer Swyddfa

Mae hyn yn cynnwys cyfrifiadur, argraffydd ac offer perthnasol, peiriant ffacs a theipiaduron. Bydd gwerth ariannol cyfatebol yn cael ei roi i'r Cyngor na fydd yn elwa o dderbyn yr offer.

1.3 Rhandiroedd/Meysydd Chwarae

Rhandiroedd Maudlam (Corneli), rhent blynyddol £100 i'w roi i Gyngor Cymuned arfaethedig Corneli. Meysydd Chwarae yn Grofft Goch, Mynydd Cynffig (Y Pîl) a Meadow Street, Gogledd Corneli (Corneli). Cyngor Cymuned Cynffig sy'n gweinyddu'r ddau faes chwarae ar hyn o bryd fel asiant i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan dderbyn ffi rhaniad blynyddol o 5% o'r arian a dderbynnir. Bydd y ffioedd rhaniad yn cael eu rhannu rhwng y ddwy gymuned newydd fel y bo'n addas.

1.4 Arwyddion Swyddogaeth

Bydd yr Arwydd Swyddogaeth presennol yn cael ei roi i Gyngor Cymuned Y Pîl. Bydd Arwydd Swyddogaeth blaenorol Cyngor Tref Cynffig yn cael ei roi i Gyngor Cymuned Corneli.

2. Rhwymedigaethau

2.1 Neuadd Gyhoeddus, Heol Las (Corneli). Mae cytundeb ar y Neuadd Gyhoeddus a gytunwyd ym mis Hydref 1955 rhwng Cyngor Bwrdeistref Ogwr a Chyngor Tref Cynffig. Datgan y cytundeb mai Cyngor Tref Cynffig, neu ei ddilynwyr, sef Cyngor Cymuned Cynffig fydd yn gyfrifol am gynnal ac addurno'r Neuadd. Adeiladwyd y Neuadd gydag arian cyfraniadau cyhoeddus.

2.2 Yswiriant i gwmpasu cynnwys y Neuadd Gyhoeddus, Gogledd Corneli, (Corneli), offer swyddfa, Arwydd Swyddogaeth y Cadeirydd, cofgolofn rhyfel, Moriah Place, Mynydd Cynffig (Y Pîl), 6 cysgodfa bws, cyfrifoldeb cyhoeddus, gwarant cywirdeb a damwain bersonol a bydd yn cael ei rannu rhwng y ddwy gymuned newydd fel y bo'n addas.

2.3 Mae gan Gyngor Cymuned Cynffig gyfrifoldeb dros gynnal hawliau tramwy cyhoeddus a seddi ar ochr y ffordd. Bydd y cyfrifoldebau hyn yn cael eu rhannu ar sail eu lleoliad.

2.4 Rhent blynyddol o £50 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer llogi maes chwarae plant Pwllygath, Mynydd Cynffig (Y Pîl).

2.5 Talu cyflogau i glerc, 2 ysgrifennydd meysydd chwarae ac am lanhau cysgodfannau bws (£9,663 y.f.). Bydd talu cyflogau'r ysgrifenyddion yn cael ei rannu fel bo'n addas. Bydd y cysgodfannau bws yn cael eu cynnal gan y cyngor cymuned ar sail eu lleoliad.